

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 9 fed o Fedi 2021

## Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 8fed o Orffennaf 2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
  - Cyfarfod IBC 1af o Fedi 2021
    - i. Mantolen ariannol
    - ii. Ceisiadau Nawdd
    - iii. Taliadau
    - iv. Archwilwyr Allannol
7. Logo newydd
8. Cynllunio
9. Materion y Clerc
  - Cais Nawdd      Hosbis Dewi Sant
  - Septic Tanc      Diweddariad
  - Mast G5 Goetre/Ysbyty Gwynedd
  - Cofrestr Risg
    - Adroddiad RoSPA Cae chwarae Caerhun
      - Llythyr Alwyn Williams
        - Bin Sbwriel
        - Bin Sbwriel i'r Fynwent Newydd
    - Cae Chwarae mae Gwynedd yn awyddus i ni gymeryd cyfrifoldeb drostynt
10. Materion y Cynghorwyr
  - Cyng E Jones                      Diweddariad cofrestru Llwybr Treborth
  - Cyng B Jones                      Cysgodfan Goleufryn

# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 08fed o Orffennaf 2021

1. **Presennol:** Cyngorwyr E. Jones; M. Baines; J. Pierce; J. Griffiths; D. W. Jones; B. Jones J Lewis; L. A. James; a'r Clerc E Jones
2. **Ymddiheuriadau:**

Cyngorwyr D. Jones-Morris; M. Lynch; H Griffiths; T A Williams;

Cadeirwyd y cyfarfod a traddodwyd gweddi gan y Cyng D W Jones
3. **Datgan buddiant**

Esbonwyd eto y broses ynglyn a datgan buddiant yn rhithiol.  
Datgan ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi ag i'r Cyngorydd wedyn anfon ffurflen wedi ei llofnodi  
Datganiad gan Cyng J. Lewis ei fod yn gymydog i'r rhai oedd yn gwneud cais cynllunio yn 9 (f)  
**Ni fyddai'n cymeryd rhan yn y drafodaeth**
4. **Derbyn cofnodion** 10fed o Fehefin 2021 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir  
Cyng M. Baines yn cynnig a Cyng E. Jones yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r cofnodion**

Dim nad oedd wedi eu cynnwys o fewn yr agenda
6. **Materion ariannol**
  - Cyfarfod IBC 30ain o Fehefin 2021
    - i. **Mantolen ariannol** wedi ei rhannu ag yn dangos £32.110.39 yn y cyfrif cyfredol a £35,038.51 yn y cyfrif Cadw
    - ii. **Adroddiad blynyddol ag Archwilwyr Mewnnol** Adroddiad yr Archwilwyr mewnnol wedi ei derbyn ac yn gadarnhaol gyda'r un awgrym i sicrhau arddangos yr holl gofnodion yn electonig ar dudalennau'r We mor fuan a phosib. **Cytunwyd bod y Clerc i'w anfon unwaith eu bod wedi eu cadarnhau – tae hynny ond yn y Gymraeg a'i anfon i'w cyfieithu yr un pryd**
    - iii. **Ceisiadau Nawdd** - Cais newydd ei dderbyn heddiw o Hosbis Dewi sant ond dim mantolen. **Clerc i anfon yn ol holi am fantolen cyn y gallwn ei ystyried**
    - iv. **Taliadau** Cymeradwyo talu'r cyfan
    - v. **Canolfan Newydd** Datgelwyd pryder am rai elfennau allannol o'r prosiect e.e llwybr a'r darn glaswelltog o flaen y ganolfan. Awgrymwyd ein bod angen cyfarfod ar safle yn nghwmni swyddogion eiddo Gwynedd yn hytrach na rheolwyr y prosiect sydd ond yn cario allan cyfarwyddyd y swyddogion eiddo.
7. **Logo newydd** Cyng L A James mewn cyswllt a'r dylunydd ag am holi os byddai yn briodol ceisio lansio'r Logo yn yr Hydref a threfnu wedyn gosod y dyluniad newydd ar yr hysbysfyrddau y bocsus blodau y Diffibs ag efallai'r cysgodfannau yn ogystal ag ar y canolfannau
8. **Cynllunio**
  - Cais Cynllunio C21/0634/25/CC Maes y Ffynnon Ffordd Penrhos Bangor LL57 2DW Cais i Dorri 2 goeden Dderw sy'n destyn Gorchymyn Gwarchod Coed 3/TPO/A35 **Dim gwrthwynebiad**
9. **Materion y Clerc**
  - a. **Diffib 2021-22** Holwyd am leoliadau ar gyfer 21-22 ond gan nad yw ffyrdd stád Goetre wei eu mabwysiadu eto cytunwyd mae doeth fyddai disgwyl ychydig
  - b. **Septic Tanc Diweddariad** Fawr ddim wedi digwydd yn ystod y mis yn bennaf oherwydd ein bod yn disgwyl i Dwr Cymru gynnal eu archwyliad o'i rhwydwaith pibelli
  - c. **Cysgodfan Penrhos dinas Bangor / Cyngor Pentir** Tra bod y gysgodfan o fewn ffin Cyngor Pentir Cyngor Dinas Bangor sydd wastad wedi cymeryd cyfrifoldeb ohoni. Angen trafod hefo Iwan Williams Gweinyddwr Cyngor Bangor i drafod y ffordd ymlaen
  - d. **Presennoldeb mewn cyfarfodydd** Trafodwyd bod tymor y cyngorwyr presennol yn dod i ben Mis Mai 2022 a cydabuwyd fod y flwyddyn a haner ddwaetha wedi bod yn heriol a dweud y lleiaf a chyfarfod yn rhithiol ddim at ddant pawb. Serch hynny atgoffwyd pawb fod yna ganllawiau i

gynghorwyr eu dilyn a bod yn bresennol mewn cyfarfodydd yn un o'r canllawiau/disgwyliadau hynny a bod yna uchafswm o ymddiheuriadau ellir ei dderbyn

- e. **Mast G5 Goetre/Ysbyty Gwynedd** Cais ymgynghoriad/sylwadau am godi mast G5 fyddai yn 18 metr o uchder. Anfon sylwadau yn **Gwrthwynebu**
- f. **Cais Cynllunio Hafod y Nant Rhydygroes** Derbynydd mwy o wybodaeth drwy'r Cyng L A James oedd yn absennol wrth ei drafod yn Mis Mehefin ond wedi derbyn e-bost gan yr ymgeiswyr. Cytunwyd i is-raddio'r 'gwrthwynebiad' i 'beidio cefnogi' gan nad oedd dyluniad y sied yn ymarferol i sied amaethyddol ar gyfer cadw da byw a cwestiynwyd pellter y sied oddiwrth aneddau trigolion eraill
- g. **Cofrestr Risg** 'Roedd ein cofrestr Risg gyfredol wedi ei rhannu'n electronig gyda'r holl Gynghorwyr a gofynwyd i bawb edrych dros yr elfannau hynny oedd yn ymddangos mewn print coch – h.y pethau oedd angen sylw i leihau ein risgiau e.e sefydlu Cynllun Busnes – edrych drwy ein polisiau a.y.y.b. **Cytunwyd i rai ddo yn ol i gadarnhau yn unol a'i cryfderau/diddordebau pa elfen o'r gofrestr allai nhw ymgymeryd a hwy**
- h. **Llythyr Cyngor Cymuned Llandygai** 'Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr yn gofyn os oedd y Cyngor yn derbyn gwasanaeth/ymatebion o Cyngor Gwynedd oedd i fyny i'w gofynion ag os byddai ganddynt ddiddordeb i ymuno mewn cyfarfod a Phrif Weithredwr Gwynedd i ddatgan eu pryder. **Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol ymuno mewn cyfarfod o'r fath ag i'r Clerc ymateb yn ol i ddatgan hynny**

## 10. Materion y Cynghorwyr

- **Cyng E Jones** **Diweddariad cofrestru Llwybr Treborth**  
Adroddwyd fod popeth yn ei le bellach i allu anfon y wybodaeth ymlaen i Cyngor Gwynedd i weithredu ar ein rhan ynglyn a'r mater yma – Dros 200 o ffurflenni wedi ei cwblhau yn datgan defnydd dros flynyddoedd lawer a chefnogaeth i'r fenter **Diolchwyd i'r rhai fu ynglwm**
- **Cyng L A James** **Trwyddedu Tafarn Y Faenol - oes ymateb gan y trigolion**  
Adroddwyd fod yr Adran Drwyddedu yn ystyried eu cais ond fod peth pryder ynglyn a beth oedd wedi ymddangos ar wefan gymdeithasol 'fod trigolion lleol yn gwrthwynebu'. Nid oedd y gair gwrthwynebu wedi ei ddatgan o gwbl ond yn hytrach 'consyrn' o fod yn gofyn am fod ar agor tan 1.30 y bore ar fore Sadwrn a Sul
- **Cyng B Jones** Adroddodd fod y cyn Gyngorydd Richard G Roberts wedi bod i mewn ag allan o'r Ysbyty sawl tro yn ddiweddar a tybed os byddai posib anfon Cerdyn a gair am wellhad buan ato **Cytunwyd i'r Clerc drefnu**
- **Cyng M Baines**  
Derbynydd diweddariad gan Coed Fodol

Daeth y cyfarfod i ben 9.10

Cyfarfod nesaf 09-09-21

Cytunwyd cynnal Is-bwyllgor Cyllid Awst Nos Fercher cyntaf Medi sef 01-09-21